

| | |
|--------------|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 23 GORFFENNAF 2020 |
| TEITL | CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020 |
| PWRPAS | Cyflwyno a nodi – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon Drafft |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn y wybodaeth |
| AWDUR | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |

1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, sy'n darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

Y ddogfen yn Atodiad A yw'r Datganiadau Cyfrifon drafft yn y fformat statudol. Anfonwyd dolen i'r datganiad at aelodau'r Pwyllgor ar 11 Mehefin 2020

2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Mae'r cyfrifon drafft yma yn destun archwiliad ar hyn o bryd ac mae'r archwiliad ar y gweill gan Deloitte. Mae'n bosibl y bydd angen rhai newidiadau cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2019/20.